

Cyngor Ysgolion Sul: Hanes diweddar

Yn *Gwyddoniadur Cymru* a gyhoeddwyd gan yr Academi Gymreig yn 2008 mae'r cyfraniad o dan y teitl 'Ysgol Sul' yn gorffen gyda'r paragraff hwn:

Rhwng 1870 a 1920 y cafwyd oes aur yr ysgol Sul yng Nghymru. Wedi hynny, arweiniodd dirywiad cyson at sefydlu'r Cyngor Ysgol Sul yn 1966, yn bennaf er mwyn hybu'r gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2006 roedd y corff hwnnw mewn trafferthion ac roedd galw am gorff newydd, un a fyddai'n gyfrifol am bob math o weithgarwch Cristnogol ymhlith plant a phobl ifainc gan gynnwys yr ysgol Sul.

Mae'n bleser gallu dweud mai rhannol wir yn unig ydi'r dyfyniad uchod, ac roedd hynny'n wir hefyd pan gyhoeddwyd y gyfrol. Do, fe fu cyfnod pur ofidus rhwng diwedd 2003 a 2006. Diffyg arian, sydd wedi bod yn broblem o'r dechrau, oedd prif ffynhonnell y gofidiau. Roedd y gefnogaeth ariannol a gafwyd gan y Llywodraeth yn y gorffennol wedi dod i ben, ac roedd y staff yn dal i gael eu cyflogi. Roedd 'gwerthu' amser y ddau Swyddog Datblygu i gylchoedd ac eglwysi penodol wedi digwydd er mwyn lliniaru'r baich ariannol ar y Cyngor, ond roedd y Cyngor yn wynebu tua £30,000 o golled. Bu ailstrwythuro gwaith y gweithwyr, gyda Chyhoeddiadau'r Gair yn dwyn y baich ariannol i leddfu'r sefyllfa.

Mewn datganiad i'r wasg ddechrau 2004 dywedwyd bod Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn ad-drefnu swyddi a dyletswyddau gwaith oherwydd bod gwasgfa ariannol unwaith eto'n bygwth gwaith y Cyngor. Nodwyd bod penderfyniad Bwrdd yr Iaith i beidio â rhoi unrhyw gymorth ariannol i'r Cyngor yn ergyd drom, ac felly yr unig ffynonellau uniongyrchol oedd cyfraniadau canolog yr enwadau ynghyd â chyfraniadau cyfeillion ac eglwysi. Yn anffodus iawn, roedd cyfraniadau canolog yr enwadau naill ai'n aros yn eu hunfan neu'n cael eu tocio. Yr unig waredigaeth oedd fod gan y Cyngor ei adran gyhoeddi – Cyhoeddiadau'r Gair – a llwyddiant y fenter honno oedd yr unig reswm pam y gellid parhau i gyflogi Swyddogion Datblygu yn y De a'r Gogledd. Dywedodd y Parch. Olaf Davies, Cadeirydd y Cyngor Ysgolion Sul, fod y newidiadau'n angenrheidiol os oedd y gwaith o hyrwyddo addysg Gristnogol drwy gyfrwng yr ysgolion Sul a'r eglwysi i barhau. 'Yn anffodus,' meddai, 'arian, neu yn hytrach ei ddiffyg, sy'n rheoli ein cenhadaeth ymysg yr ifanc.'

Bellach, ochr yn ochr â gweithwyr y Cyngor, roedd pob un o'r enwadau wedi buddsoddi mewn gweithwyr a gweithgarwch, a thebyg bod hynny hefyd yn rheswm pam roedd angen edrych eto ar rôl y Cyngor, union ddeugain mlynedd ers ei sefydlu. Daeth galwad gan Ffiona K. Edwards, Swyddog Datblygu'r Gogledd, yn ei hadroddiad olaf (Mai 2005), cyn iddi symud i ddilyn cwrs mewn coleg, am adolygiad allanol trylwyr o nod ac amcanion y Cyngor gan weithgor allanol annibynnol a fyddai'n gwerthuso'r staff a'r dulliau gwaith.

Ymatebwyd yn gadarnhaol i'r syniad a gwahoddwyd dau oedd heb fod â chyswllt uniongyrchol agos â'r Cyngor i weithredu, sef Mrs Sioned Bowen a'r Parch. Meirion Morris. Fe gyflawnwyd y dasg ganddynt ond am resymau personol ni allodd Mrs Bowen gwblhau'r gwaith. Gwnaed hynny gan y Parch. Meirion Morris a chyflwynodd ei adroddiad mewn cyfarfod ar 18 Tachwedd 2005. Yn yr un cyfarfod cyflwynwyd dwy ddogfen arall i'w hystyried - y naill gan Aled Davies a'r llall gan Nigel Davies.

Cytunwyd bod grŵp bach i gyfarfod i lunio strwythur i'r dyfodol gan nodi blaenoriaethau. Roeddent i weithio ar sail y tair ddogfen, gan eu dwyn at ei gilydd, a llunio datganiad o genhadaeth a fyddai'n adeiladu ar yr hyn oedd gan y Cyngor yn barod. Byddai'n rhaid rhoi sylw penodol i'r ariannu, yn ogystal â chael ymateb yr enwadau.

Cyfarfu'r grŵp deirgwaith, ond ar ddiwedd y trydydd cyfarfod nid oedd unfrydedd barn. Felly, cytunwyd i ofyn i'r Parch. Meirion Morris roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Gwnaed hynny mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 16 Chwefror 2006 a gwahoddwyd Richard Morgan, Ysgrifennydd Gweithredol Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, i baratoi cyllideb posib ar gyfer y cynllun gwaith newydd.

Cyflwynodd y Parch. Meirion Morris ei argymhelliad i'r cyfarfod, gan ddweud: 'Oherwydd y sefyllfa bresennol mae angen gweithio yn gydenwadol yn y Gymru Gymraeg. Beth bynnag fydd y datblygiadau, y mae'n rhaid diogelu'r hyn sydd gyda ni ac mae gyda ni waith i'w wneud gan fod yna 700 o Ysgolion Sul cyswllt.' Ei weledigaeth oedd creu swydd i gynnal fforwm cydenwadol ar gyfer gweinigogaeth plant, ieuenctid a theuluoedd. Ehangodd ar hynny drwy egluro nifer o elfennau'r gwahanol gyfrifoldebau a chyfraniadau'r gwahanol bartneriaid megis gwirfoddolwyr, pwyllgorau adrannau enwadol a gweithgarwch cydenwadol.

Yn y gyllideb a baratowyd gan Richard Morgan, nodwyd bod y diffyg yn debyg i'r swm a gafwyd yn 1996 ond bod gostyngiad dybryd yn aelodaeth yr eglwysi erbyn hyn. Eglurodd y byddai angen ychwanegiad sylweddol yng nghyfraniadau'r enwadau i gynnal y cynllun.

Cafwyd trafodaeth eang ac fe nodwyd nifer o syniadau a phroblemau. Er nad oedd pawb yn hollol hapus gyda'r datblygiad, oherwydd y cyfyngiadau ariannol oedd yn ei gwneud yn amhosibl parhau â'r drefn ar y pryd, cytunwyd i gyflwyno'r argymhelliad i'r enwadau. Penderfynwyd bod y papur, wedi'i addasu, yn cael ei gyflwyno i'r enwadau, gan ofyn iddynt ymateb erbyn diwedd Gorffennaf.

Crynowyd y sefyllfa, gan bwysleisio'n arbennig: nad oedd y Cyngor yn fethdalwr, ond na ellid parhau ar y llwybr presennol; bod y Cyngor yn gwneud colled oherwydd diffyg cefnogaeth ddigonol gan yr enwadau, oedd eu hunain â phroblemau ariannol dybryd.

Derbyniwyd ymatebion gan yr enwadau i'r llythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd yn disgrifio'r argyfwng ariannol, y rheidrwydd i docio staff a newid patrymau gwaith. Roedd y posibilrwydd o

sefydlu fforwm a chydlynedd wedi'i gyflwyno yn adroddiad y Parch. Meirion Morris. Roedd y Presbyteriaid yn gefnogol i'r syniad ac yn barod i drafod ymhellach, ar y sail fod yr enwadau eraill yn cyfrannu ar lefel gyfatebol. Roedd yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn barod i gynyddu eu cyfraniadau, ond nid i'r graddau y byddai Fforwm yn ei hawlio, ac yn anghymeradwyo'r syniad o gydlynedd. Roedd cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru yn lleihau ac yn ansicr.

Ar sail hyn cyflwynodd Aled Davies, yr ysgrifennydd, adroddiad yn disgrifio ffordd ymlaen lle y byddai prif benawdau'r gwaith yn parhau, ond ar lefel lawer llai. Byddai un ysgrifennydd llawn amser yn rhannu ei waith rhwng: cefnogi gwaith plant yn y maes; cydlynu a hybu gweithgarwch yr enwadau; paratoi adnoddau a gwर्सlyfrau; gweinyddu rhaglen gyhoeddi fasnachol Cyhoeddiadau'r Gair; a gweinyddu gwaith y Cyngor. Byddai pob pennawd yn golygu 20% o'r gwaith, sef 40 diwrnod y flwyddyn yr un. Diolchwyd bod y patrwm a argymhellid gan Aled yn cynnig ffordd ymlaen oedd yn ystyried y newidiadau a fu, gyda'r enwadau a grwpiau eraill yn cyflogi gweithwyr yn y maes.

Derbyniwyd adroddiad yr Ysgrifennydd mewn egwyddor gan ofyn i gynrychiolwyr yr enwadau ddychwelyd i'w llysoedd a sicrhau cefnogaeth a pherchnogaeth, ac ar y sail y byddai'r Parch. Aled Davies yn parhau i fod yn ysgrifennydd.

Roedd pob math o sibrydion yn mynd o amgylch a rhai sylwadau yn y wasg, ac anfonwyd llythyr gan y Parch. Edwin O. Hughes (Cadeirydd y Cyngor Ysgolion Sul) oedd yn ymateb i erthygl y Golygydd (Y Parch. Ddr D. Ben Rees) yn rhifyn 27 Ionawr 2006 o'r 'Pedair Tudalen', atodiad cydenwadol yr wythnosolion enwadol. Ymddangosodd llythyr arall gan y Cadeirydd, dyddiedig 14 Mehefin 2006, oedd yn diweddu â'r geiriau fod:

[y] sefyllfa wedi bod yn anodd iawn dros y misoedd diwethaf, a rhagwelwn y cymer rai misoedd, os nad blwyddyn, i roi unrhyw gynlluniau newydd ar waith. Ein gobaith a'n gweddi yw y bydd modd i'r enwadau barhau i'n cefnogi'n deilwng er mwyn i'r gwaith gwych a wnaed gan y Cyngor yn y gorffennol barhau i'r dyfodol er mwyn aelodau ein Hysgolion Sul.

Cafwyd cefnogaeth yr enwadau, ac wrth edrych at gyfraniad y Cyngor o 2007 ymlaen dywedodd yr Ysgrifennydd, mewn dogfen a ddosbarthwyd, fod yn rhaid edrych at y dyfodol gyda hyder, wrth gofio am y gwaith y'n galwyd i'w gyflawni, a cheisio addasu neges yr efengyl i blant ar gyfer anghenion heddiw. Bellach doedd dim swyddogion datblygu / maes; doedd dim staff yn y swyddfa / siop ac roedd swyddfeydd / stordy / siop Bangor hefyd yn debygol o ddiflannu. Ond roedd y pum elfen o'r gwaith a gyflwynwyd i'r Cyngor a'r enwadau yn mynd i gael sylw ac o gofio bod pedair swydd wedi mynd yn un swydd, roedd yn rhaid bod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellid disgwyl ei gyflawni, gan obeithio na fyddai hyn yn golygu cyfaddawdu'n ormodol ar waith y Cyngor yn y gorffennol. Pwysleisiwyd bod yn rhaid cynllunio'n ofalus, gan flaenoriaethu'r hyn oedd yn greiddiol i waith yr ysgol Sul yng Nghymru.

Penderfyniad y Cyngor, yng ngoleuni ymateb yr enwadau, oedd gwrthod y syniad o fforwm a pharhau gyda'r Cyngor Ysgolion Sul, ond gyda dim ond Aled Davies yn cael ei gyflogi'n llawn amser i gyflawni'r gwaith fel y gallai.

O 2007 ymlaen, felly, wedi cyfnod o asesu ac ailstrwythuro, roedd y Cyngor yn gweithredu gyda phatrwm newydd, ac Aled Davies yn awr yn Gyfarwyddwr. Ei eiriau yntau ar y pryd oedd: 'Bu'n flwyddyn o newidiadau mawr yn hanes y Cyngor, a diolchwn am bob cefnogaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ansicr hwn.'

Ddechrau 2007 fe ddechreuodd aelodau newydd y Cyngor ar eu gwaith am gyfnod o dair blynedd, ac etholwyd swyddogion newydd am y cyfnod hefyd, sef y Parch. Ronald Williams – Cadeirydd; y Parch. Trefor Lewis – Is-gadeirydd; y Barch. Jill Tomos – Trysorydd; Mr Rheinallt Thomas – Swyddog Ariannol; y Parch. Ifan Roberts – Ysgrifennydd; y Parch. Geraint Tudur – Cofnodydd, yn ogystal â nifer helaeth o gynrychiolwyr o'r enwadau a chyrrff eraill megis Cytûn, Cymorth Cristnogol a Chymdeithas y Beibl.

Yn dilyn cyfnod o flaenoriaethu rhaglen waith y Cyngor, gosodwyd strwythur newydd yn ei le hefyd, gan sefydlu nifer o baneli i ymgymryd â gweithgarwch arbennig. Y strwythur y cytunwyd arno oedd:

(i) Y Cyngor, yn cynnwys tua 25 o aelodau wedi'u hethol gan yr enwadau a fyddai'n cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn ac a fyddai hefyd yn ffurfio aelodaeth y Cyfarfod Blynyddol;

(ii) Pwyllgor Gwaith, yn cynnwys y swyddogion a'r ymddiriedolwyr, a fyddai'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn ymgymryd â gwaith gweinyddol y Cyngor;

(iii) Panel Gwerslyfrau, yn cynnwys deg aelod, a fyddai'n cyfarfod i gynllunio a chydlynu'r gwerslyfrau;

(iv) Panel Gweithgareddau, yn cynnwys deg aelod, ac yn cyfarfod i drefnu rhaglen weithgareddau'r Cyngor;

(v) Panel Cyhoeddi, yn cynnwys deg aelod, ac yn cyfarfod i drafod rhaglen gyhoeddi Cyhoeddiadau'r Gair;

(vi) Panel Cyllid, yn cynnwys wyth aelod, ac yn cyfarfod i drefnu cyllideb a thrafod materion ariannol y Cyngor.

Sefydlwyd ffordd newydd o weithio hefyd: newidiwyd teitl swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol i fod yn Gyfarwyddwr y Cyngor Ysgolion Sul a Chyhoeddiadau'r Gair, a lluniwyd swydd ddisgrifiad a chytundeb gwaith newydd.

Wedi cau'r swyddfa a'r siop ym Mangor, symudwyd y swyddfa i Chwilog a'r ganolfan i Bwllheli. Gyda nifer y gweithwyr cyflogedig wedi lleihau o bedwar i un, fe osodwyd strwythur yn ei le i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni, gan gomisiynu pobl i gyflawni dyletswyddau arbennig. Gweithredwyd ar gyllideb mewn partneriaeth gyda'r enwadau.

Cytunwyd mai prif flaenoriaeth y Cyngor fyddai darparu adnoddau a gwrslyfrau i ysgolion Sul. Yn annatod glwm wrth hyn roedd gweinyddu'r gwaith o ddydd i ddydd, yn cynnwys hybu gwerthiant a chyhoeddusrwydd, a rheoli rhaglen gyhoeddi Cyhoeddiadau'r Gair.

A dyna sydd wedi digwydd ers hynny tan yn awr, gyda chydweithrediad nifer sylweddol o unigolion o'r enwadau a chomisiwn yn ôl y galw. Erbyn hyn cyflogir y Parch. Ddr Rhys Llwyd am ddiwrnod yr wythnos i gyflawni peth gwaith dylunio a gofalu am y wefan – www.ysgolsul.com – ffynhonnell amhrisiadwy i bawb sydd â diddordeb yng ngwaith ysgolion Sul a Christnogaeth ymarferol.

Syndod i lawer, o gofio'r gweithgarwch yng nghyfnod y Swyddogion Datblygu, yw fod cymaint yn dal i ddigwydd. Mae gweledigaeth, brwdfrydedd ac ynni dihybydd Aled Davies yn sicr yn rhan allweddol o hyd a lled y gweithgarwch yma, ac mae gan Gristnogion Cymraeg Cymru, yn blant ac oedolion, ddyled aruthrol i Aled am lwyddiant y gwaith.

Yn 2014 dathlodd Aled chwarter canrif o weithio i'r Cyngor ac fe nodwyd hynny yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor ar 3 Gorffennaf drwy gyflwyno llun o'i ardal enedigol iddo gan yr enwadau fel gwerthfawrogiad o'i gyfraniad amhrisiadwy drwy gydol ei gyfnod ac am sawl gweledigaeth a fu'n achos llwyddiant i waith y Cyngor a Chyhoeddiadau'r Gair. Gan fod y Cadeirydd cyfredol hefyd yn fardd, cyfansoddodd soned i'w gyfarch ar yr achlysur.

Y crwt o Lanybydder

Athrofa fu'r hen farchnad yn y dref
i werthfawrogi bargaen gyda'i dad;
a rhannodd Aberduar drysor nef
a'i phris tu hwnt i boced fwy'r wlad.
Bu'n dyst i gyfoeth gras y sanctaidd Dduw
yn galw plant y llawr i deulu'r ffydd,
fel bod ysgolion Sul yn gyfrwng byw –
cenhadaeth rhannu'r fargaen fwyaf sydd.
Ysgogodd weithiau gwreiddiol ar ei daith,
adnoddau sydd yn dyst o Grist y groes.
Anogodd eraill i gyfieithu gwaith
er mwyn i'r saint gael gwaddol gydol oes.

Dros chwarter canrif bu yn gadarn ŵr
a'i wyliaidwriaeth sicr ar y tŵr.

DIJ

Cynnal a chadw (cyllido ac ati)

Cyllid, neu'n hytrach ei ddiffyg, ydi'r hyn sydd wedi bod yn broblem fawr i waith y Cyngor o'r dechrau. Fel y gwelwyd ym Mhennod 2, yr enwadau a greodd y Cyngor, ond yn y broses honno ni roddwyd unrhyw seiliau ariannol i'r corff newydd, cydenwadol hwn. Yn wir, awgrymwyd mai osgoi eu cyfrifoldeb ariannol oedd rhan o fwriad yr enwadau wrth greu'r Cyngor. Roedd baich ariannol cynhyrchu gwerslyfrau, ac yn fwy fyth y cyfnodolion enwadol i blant, yn broblem, ac wrth gytuno i ffurfio'r Cyngor Ysgolion Sul a throsglwyddo'r cyfrifoldebau hynny i'r sefydliad newydd, codwyd baich oddi ar ysgwyddau'r enwadau.

Yr arian mewn llaw gan Bwyllgor Cydenwadol yr Ysgol Sul ym Medi 1966 oedd £11 10s, a'r gwariant yn ystod y flwyddyn flaenorol oedd £13 10s. Roedd gan y Pwyllgor Cydenwadol – yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid – hefyd stoc o 'Gyfras y Grisiau'. Nodir gan yr Annibynwyr iddynt werthu 737 copi mewn cyfnod o gwta dwy flynedd ac mai gwerth hynny oedd £27 12s 9c. Roedd chwech o deitlau yn y gyfras, a rhwng pawb roedd dros 25,000 o gopiau mewn stoc! Mae'n amlwg y disgwyliad i unrhyw gyhoeddiad o leiaf dalu amdano'i hun.

Roedd *Antur* yn broblem ariannol yn fuan iawn gan mai 6c y rhifyn oedd ei bris yn 1966, ond fe'i codwyd i 10c o Ionawr 1967. Ar yr ochr bositif, llwyddwyd i gael grant i sefydlu 'gwlanengell' ac i ymestyn y ffilmgell a drosglwyddwyd i'r Cyngor gan y Presbyteriaid a'r Annibynwyr. Cafwyd grant o £150 gan Gronfa Pantyfedwen ac roedd tâl aelodaeth yn dod ag ychydig incwm. Yn Ebrill 1967 roedd y swm mewn llaw gan y Cyngor yn £399 17s 2c, ac yn £532 erbyn Medi. Yng nghyfarfod mis Medi, cytunwyd i fuddsoddi peth o'r arian a phrynu 1,000 o gyfranddaliadau yn yr Harlech Consortium. Cawn weld pa mor allweddol oedd y penderfyniad hwn nes ymlaen a pha mor allweddol oedd cyfraniad Mr T. O. Gregory, fel Trysorydd, yn y cyfnod hwn.

Credaf ei bod yn fuddiol atgynhyrchu swm a sylwedd taflen ariannol gyflwynwyd i'r Cyngor yn 1973 sy'n dangos y taliadau a'r derbyniadau dros gyfnod cychwynnol y Cyngor. Nid wyf am wneud unrhyw ddadansoddiad, ond hawdd gweld maint y colledion a pha mor gyndyn ac yna mor bitw yr oedd cyfraniadau'r enwadau ar y cyfan. Yn wir, mewn cyfarfod o'r Cyngor ym Medi 1967 penderfynwyd gofyn 'am gyfraniad blynyddol tuag at y gwaith oddi wrth bob capel. Cytunwyd ar yr ardreth yn ôl aelodaeth, sef 10/- i rai dan 100, a £1 neu ragor i rai dros 100'. Anfonwyd llythyr ar 2 Hydref 1967 yn nodi hyn ond, fel y gwelir o'r golofn 'amrywiol' yn y derbyniadau isod, ymateb llugoer a gafwyd, ac erbyn 1973 roedd bron wedi peidio â bod o gwbl.

Cynllun arall na ddatblygwyd oherwydd methiant yr enwadau i'w ariannu oedd y penderfyniad yn Nhachwedd 1968 i sicrhau trefnydd amser llawn i'r Cyngor. Byddai'n costio £4,000 y flwyddyn – llai na chwe cheiniog yr aelod.

Mae'n deg nodi nad yw cyfrifon costau'r meysydd llafur yn gynwysedig yn y ffigyrau uchod gan fod y rheini'n cael eu gweithredu ar wahân. Yn y cyfnod 1968–73, gyda chyfres 'Cyflwyno'r Gair', fe argraffwyd 66,500 o gopiau yn y pedwar oedran am gost o £7,880. Mae'n bwysig cofio hefyd mai gwaith gwirfoddol gan awduron oedd hwn, ac felly y bu tan y cyfnod ar ôl 2006 pan gyflogwyd unigolion i gyflawni'r gwaith. Roedd yr ymdeimlad o wasanaeth a chariad at y gwaith yn gryf iawn gan unigolion yn y cyfnod hwn.

Dros yr un cyfnod (1967–73) bu gweledigaeth y Trysorydd yn allweddol iawn i ddyfodol ariannol y Cyngor. Mae hanes y buddsoddiadau yn y cyfnod hwn yn ddiddorol, yn arbennig o gofio cyn lleied oedd incwm y Cyngor. Credaf ei bod yn gywir dweud bod arian 'personol' y Trysorydd wedi'i ddefnyddio i brynu cyfranddaliadau a'r rheini maes o law yn creu pot sylweddol o arian wrth gefn i'r Cyngor.

Dengys taflen ddiwedd Mawrth 1973 y patrwm a ganlyn:

15/12/1967	Prynwyd	1,000 o gyfranddaliadau HTV (<i>Voting shares</i>)
		1,200 o gyfranddaliadau HTV (<i>Non-voting shares</i>)
		£450 – 8% Loan Stock;
06/08/1971	Prynwyd	200 o gyfranddaliadau HTV (<i>Voting shares</i>)
01/03/1972	Gwerthwyd	500 o gyfranddaliadau HTV (<i>Non-voting shares</i>)
27/10/1972	Derbyniwyd	604 o gyfranddaliadau HTV (<i>Non-voting shares</i>) yn ddi-dâl
30/11/1972	Prynwyd	300 o gyfranddaliadau Banc Masnachol Cymru

Mewn datganiad o'r sefyllfa ar 31/3/1973, gwelir bod gwerth y cyfranddaliadau yn £3619, a bod £2,002 o arian mewn llaw yn dilyn gwerthiant blaenorol. Dyma sylfaen yr holl gyfalaf a ddaeth i'r Cyngor maes o law.

Gwastad fu'r blynyddoedd a ddilynodd ar wahân i newid y flwyddyn ariannol i redeg o Ionawr i Ragfyr o 1977 ymlaen.

Yn 1978 daeth cyfle newydd, ond un oedd yn golygu sialens ariannol sylweddol. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cydweithredu gyda Gwasg Christopher Davies i gyhoeddi *Beibl y Plant mewn Lliw*, a derbyniodd gyfrifoldeb am 7,500 o gopiau. Roedd yn ymgymeriad ariannol sylweddol i'r Cyngor, oddeutu £20,000, y cynllun mwyaf mentrus ers ei ffurfio. Bu ymgyrch werthu fawr i sicrhau archebion ymlaen llaw ac erbyn diwrnod cyhoeddi'r Beibl ar 20 Medi 1978 roedd pob copi wedi'i werthu. Felly, ym mis Tachwedd cytunwyd i barhau i gydweithio i gael ail argraffiad, ac

archebwyd 5,000 o gopiau; erbyn 1980 cafwyd trydydd argraffiad. Roedd holl gyfalaf y Cyngor ynghlwm yn y cyhoeddiad ond roedd gwerthiant y trydydd argraffiad yn araf, ac felly stoc yn hytrach nag arian oedd mewn llaw. Erbyn diwedd 1982 roedd eu gwerth dros £14,000, ond dim ond £2,827 o arian oedd yn y banc.

O edrych ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn gyffredinol ar ddiwedd 1983 (deng mlynedd ymlaen o'r tabl blaenorol) mae'r sefyllfa'n fwy calonogol a'r enwadau, erbyn hyn, yn cyfrannu.

Elfen arall y cyfeiriwyd ati eisoes oedd gwaith T. O. Gregory yn buddsoddi. Ni fu fawr o fuddsoddi yn y deng mlynedd hyd at 1984 ond roedd gwerth buddsoddiadau HTV, yr oedd T. O. Gregory wedi'u sicrhau, erbyn hynny yn £15,212 ac roedd buddsoddiadau mewn Funding Stock a Chyngor Abertawe, a sicrhawyd yn 1980 ac 1983, yn werth £9,534 arall. Roedd gwerth yr holl gronfeydd ar ddiwedd 1983 yn £33,189, heb gynnwys y cynnydd yng ngwerth y cyfranddaliadau o £15,441. Erbyn diwedd 1984, gan fod Cyfrif y Swyddogion Datblygu wedi'i ffurfio, roedd Cronfa'r Cyngor yn £46,713.

Trefniant a effeithiodd ar y sefyllfa ariannol oedd sicrhau grant y Swyddfa Gymreig a arweiniodd at benodi'r Swyddogion Datblygu (gweler Pennod 4). Dechreuwyd y daith mewn cyfarfod yn y Swyddfa Gymreig ar 29 Tachwedd 1983, ac erbyn Mawrth 1984 dyfarnwyd grant o £12,500. Roedd yr enwadau hefyd yn gefnogol i gydariannu'r cynllun (£5,500 yn 1984), ac felly sicrhawyd y ddwy swydd.

Parhaodd y trefniant, gydag amrywiol symiau'n cael eu dyfarnu gan y Swyddfa Gymreig o flwyddyn i flwyddyn a chyfraniadau gan yr enwadau. O 1996 ymlaen, Bwrdd yr Iaith oedd yn dosbarthu'r grantiau tuag at gyflogi'r Swyddogion Datblygu, ac eto amrywiai'r symiau a ddyfarnwyd, fel a ganlyn: 1996 – £10,687; 1997 – £5,500; 1998 – £4,000. Roedd llawenydd yn 1999 pan ddyfarnwyd grant o £10,000, ond roedd colled flynyddol o ryw £21,000 yn dal i fodoli.

Grantiau o £3,000 a £2,500 yn unig gafwyd yn 2000 a 2001, ac ni fu mwy wedyn. Roedd hyn yn drueni o safbwynt y Cyngor ac arweiniodd ymhen pedair blynedd at ddileu swyddi'r Swyddogion Datblygu.

Fe gynorthwywyd y sefyllfa ariannol yn ystod 1995 drwy werthu cyfranddaliadau HTV (a gostiodd £255 yn wreiddiol) am £52,649. Yn 1997 gwerthwyd gweddill cyfranddaliadau HTV am £81,144.

Yn 1994 roedd y Cyngor wedi rhoi benthyciad o £10,500 i gynorthwyo datblygu gwaith Cyhoeddiadau'r Gair a bu'n fuddsoddiad gwerth chweil a dalwyd yn ôl o fewn dwy flynedd. Cafodd gwerthu'r cyfranddaliadau a chyfraniad Cyhoeddiadau'r Gair gryn effaith ar fantolen y Cyngor, gydag elw Cyhoeddiadau'r Gair yn 1997 yn £54,924, a balans cyfrif y Cyngor yn £140,525.

Yn 1998 penderfynwyd buddsoddi £120,000 i sefydlu Cronfa Gregory – fel gwerthfawrogiad o gyfraniad T. O. Gregory – gan mai fel canlyniad i'w weledigaeth ef y cafwyd yr arian hwn; ond dim ond £70,000 a fuddsoddwyd ar y pryd oherwydd problem gyda'r llif ariannol. Roedd y Cyngor yn dal i fod yn gefnogol i gyflogi Swyddogion Datblygu er gwaethaf y colledion ariannol a diffyg grant. Bu sawl cynnig ar ailstrwythuro swyddi, ad-drefnu a chynyddu'r Incwm, a bu elw Cyhoeddiadau'r Gair yn allweddol i sicrhau parhad y Swyddogion Datblygu, gyda'r Cyngor yn defnyddio'i gyfalaf.

Mae'r tabl nesaf yn dangos sut yr oedd natur incwm a gwariant y Cyngor wedi newid a datblygu er 1983, a'r modd yr oedd ymateb ariannol yr enwadau'n amrywio. Mae'r tabl yn dangos y derbyniadau a'r taliadau am y flwyddyn ond mae'n deg nodi beth oedd cynnwys y cronfeydd cyfalaf ac incwm ar yr un dyddiad, sef: Cronfa Gregory £80,000; arian yn y banc £228,154.

Bu ymgais i sicrhau'r dyfodol drwy fuddsoddi rhywfaint o'r arian oedd yn y banc ddiwedd 2001, a buddsoddwyd £50,000 yr un yn y COIF Charity Fixed Interest Fund ac yn y Schroeder Charity Fixed Interest Fund. Dirywiodd y sefyllfa ariannol yn ystod y blynyddoedd dilynol ac roedd colled o £38,746 yn 2004, a £43,550 yn 2005; erbyn diwedd 2005 roedd yr arian mewn llaw yn y banc wedi gostwng i £16,149. Dyma arweiniodd at y 'gofidiau' a'r ailstrwythuro a ddigwyddodd yn ystod 2006.

Mae'n deg dweud y byddai'r sefyllfa ariannol wedi bod yn llawer dwysach yn llawer cynt oni bai am weledigaeth Aled Davies yn sefydlu Cyhoeddiadau'r Gair. Bu'r elw rheolaidd a ddaeth fel canlyniad i hynny o flwyddyn i flwyddyn a'i allu i gynllunio cyhoeddiadau oedd hefyd yn derbyn grantiau gan Gyngor Llyfrau Cymru yn gaffaeliad mawr. Yn 2002 gwerthwyd gwerth £101,520 o lyfrau; gwerth £100,509 yn 2003, a gwerth £88,525 yn 2004. Derbyniwyd grantiau cyhoeddi o £17,380 dros y tair blynedd ac erbyn 2005 roedd yn £15,800. Dyna gyfanswm o £323,734 yn erbyn costau cyhoeddi o £282,633 yn yr un cyfnod.

Yn dilyn yr ad-drefnu yn 2006, dywedodd y Trysorydd (Y Barch. Jill Tomos) yng Nghyfarfod Blyneddol Mehefin 2007: 'Ar un adeg roedd y sefyllfa ariannol wedi bod mor ddifrifol i'w galw'n fygythiol. O ganlyniad i benderfyniadau anodd yr oedd y sefyllfa bellach yn llawer mwy gobeithiol.' Gorffennodd trwy ddweud:

Gallwn drysori a diolch am gydweithrediad yr enwadau a'u haelioni gyda'u hadnoddau yn arian ac yn bobl; gallwn drysori, a diolch am gefnogaeth unigolion ac eglwysi Cymru o ran rhoddion a chefnogaeth gweddi; gallwn ddiolch yn gyson am ddiffuantrwydd a diwydrwydd y swyddogion a'r pwyllgorau a'u cynlluniau ariannol sydd i'w gweld yn gadarn a rhesymol; ond yn bennaf oll, gallwn drysori, a diolch am yr un gweithio er daioni gyda phob un sy'n Ei garu, trysori a diolch am y cyfle i fod yn rhai sy'n cyd weithio ag Ef.

Erbyn 2010 roedd elw o £16,000 ac yn 2011 roedd yn £9,000, gyda'r enwadau'n cyfrannu £41,000 rhyngddynt yn flynyddol. Sylw'r Trysorydd (Mr Idris Hughes) ar ffigurau 2011 yw:

Bu yn flwyddyn lwyddiannus unwaith eto. Wrth i ni newid y patrwm o baratoi gwerslyfrau am ddwy flynedd yn lle un, yna rhagdybiwyd y byddem yn defnyddio hyd at £10,000 o'n harian ein hunain ... Yn ein cyllideb tair blynedd, rydym wedi penderfynu defnyddio £10,000 y flwyddyn o'n harian ein hunain yn hytrach na phwyso ar i'r Enwadau gynyddu eu cyfraniadau. Fe fydd yna ddigon o gyfalaf yn weddill gogyfer a dwy flynedd o gostau, sy'n bolisi cyfrifol addas.

Roedd y buddsoddiadau, er gwaethaf y cyni ariannol, yn werth bron i £106,000 a derbynid llog o dros £5,000 y flwyddyn. Mae cyfrifon 2014 yn dangos derbyniadau o £128,000 a thaliadau o £133,000. Roedd diffyg felly yn 2014, ond roedd gwerth y buddsoddiadau wedi codi i bron £109,000. Penderfynwyd gofyn i'r enwadau barhau â'u cyfraniadau presennol am y blyneddau 2015 a 2016, ac yna edrych ar gylch newydd o ariannu o 2017 ymlaen. Mae'r fantolen ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos bod gwerth ariannol y Cyngor ychydig dros £325,000.

Felly'r gobaith i'r dyfodol yw y bydd yr enwadau'n ariannu'r Cyngor fel y bydd y gwaith effeithiol sydd wedi digwydd dros y blyneddau yn parhau. Byddai'n braf gallu cynyddu'r incwm fel y gallai'r Cyngor unwaith eto gyflogi gweithwyr ar hyd a lled y wlad, yn hytrach na gorfod cyfyngu ar y gwaith a gorlwytho Aled Davies, sef yr unig un y gellir ei gyflogi'n llawn amser ar hyn o bryd. A gobeithio y daw noddwr cefnog, rhyw Syr David James arall, efallai, i sicrhau bodolaeth a gwaith Cyngor Ysgolion Sul Cymru i'r dyfodol.

Pennod 10

Y gair olaf

I gloi'r gyfrol fach yma o hanes, priodol yw atgynhyrchu llythyr a anfonwyd gan un o fawrion ein cenedl at un o fawrion ein Cyngor. Daeth y llythyr, yn y llawysgrif wreiddiol, drwy law Arfon Haines Davies, sy'n dweud, 'Mae'n hynod ddiddorol'. Er nad oes dyddiad arno, credwn ei fod yn perthyn i'r saithdegau. Fe drosglwyddir y llawysgrif i'r Llyfrgell Genedlaethol yn rhan o archif y Cyngor.

Difiau

Annwyl Gyfaill,

Gobeithio y gellwch ddeall fy ysgrifen flêr; aeth y peiriant teipio ar wŷr am y tro cyntaf ers deugain mlynedd, ac ni thâl achwyn arno. Cofiwch y sgwrs a gafwyd beth amser yn ôl ar ddyfodol yr Ysgol Sul yng Nghymru ac wrthych chwi, sydd mor odidog o ddiwyd ynglŷn â hi, a dim argoel pallu ar eich egni, y traethaf fy anesmwythyd. Yn ofidus, yr wyf yn gorfod cyfaddef fod y cyffro eciwmenydd wedi chwythu ei blwc yng Nghymru, a gallwn restru nifer o resymau am hynny, yn fy nhyb i, ond nid oes gennym amser i'w ddifetha mewn cusanu gofidiau. Drachefn a thrachefn dof yn ôl at gri olaf ingol yr Athro Ambrose Bebb – ymgeleddwch yr Ysgol Sul, a thalasom yn ddrud am ein hesgeulustod o'i genadwri losg. Rhy lesg wyf fi i wneuthur fawr mwy nag awgrymu, ond pe bawn yn sioncach mi chwiliwn am rhyw gylch neu gymdeithas i drafod ac annog y pwnc. Trafod ac annog beth? Rhowch gennad i mi i sôn am hyn wrthych, a chewch chi farnu a yw hi'n werth gyrru ar y mater ymhellach: rhof nifer o osodiadau yma.

1. Hyd y gwelaf i y maer Ysgol Sul yn y Gymru Gymraeg yn druan iawn ei chyflwr, ac oni byddwn yn fwy gwylidwrus gall farw dan ein dwylo.
2. Oherwydd gostyngiad mawr yn nifer aelodau'n heglwysi methir â chynnal llawer o ddsbarthiadau, a methir â chynnal Ysgol Sul o gwbl mewn llawer eglwys.
3. Y maer Ysgol Sul yn sefydliad rhy bwysig, a'i chymwynasau ddoe yn rhy ddrud i'w gadael i lesmeirio i'w diwedd heb gymryd camre dewr i'w hadfer i'w gwaith priod, a byddai hyn yn y diwedd yn gyfraniad sylweddol i achos Undeb yr Eglwysi.
4. Y maer Ysgol Sul yn rhy bwysig o sefydliad i ymddiried ei thynged i unrhyw enwad.
5. A ellir wneuthur yr Ysgol Sul yn gydyfrifoldeb pob corff sydd yn defnyddio'r Gymraeg i hybu y Genhadaeth Xnogol?
6. Meddwl y bŵm am gorff canolig – mwy neu lai parhaol ac awdurdod ganddo i ethol a chynnal swyddogion a llunio meysydd llafur, a chynnal hyfforddiannau, hyd yn oed ymgyrraedd at Goleg yr Ysgol Sul yn rhoddi graddau a thystysgrifau cymhwyster –

mewn gair creu Awdurdod addysg grefyddol a chyfryngau hyfforddi Cristnogol annibynnol i herio y fateroliaeth di-dduw ac anghyfrifol.

Efallai mai rhyw freuddwydio ofer ydyw hyn, ond y mae breuddwydion weithiau yn dod yn wir. Pe bawn ifancach mi rown fy holl egni a'm hamser i'r Ysgol Sul.

LV

Ie, llythyr gan y Parch. Lewis Valentine (1893–1986) at y Parch J. Haines Davies (1917–2004), Ysgrifennydd Cyngor Ysgolion Sul Cymru am ugain mlynedd cyntaf ei fodolaeth.

Tybed beth fyddai ymateb Lewis Valentine i'r sefyllfa yn 2016? A yw rhai o'i freuddwydion wedi'u gwireddu?

Brwydrwn ymlaen gan hyderu y bydd llwyddiant mawr ar waith Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru yn ystod yr hanner can mlynedd nesaf.

ATODIAD 1

GWNEIR Y DATGANIAD HWN O YMDDIRIEDAETH ar y 14 dydd o Ionawr, un mil naw cant chwe deg a chwech gan EBENEZER CURIG DAVIES o 14 Long Oaks Avenue, Uplands, Abertawe, Sir Forgannwg; GWILYM PRYS DAVIES o Llust, Church Road, Tonteg, Pontypridd, Sir Forgannwg; JOSEPH HAINES DAVIES o Brynrhedydd, Treffynnon, Sir Fflint; ALUN RODERICK EDWARDS o Llanio, Llanfarian, Sir Aberteifi; THOMAS OLIVER GREGORY o National Provincial Bank House, Aberystwyth, Sir Aberteifi; a MORGAN JOHN WILLIAMS o Tŷ Ilston, Mansel Street, Abertawe, Sir Forgannwg (a elwir isod “yr Ymddiriedolwyr”)

YN GYMAINT:

Ag y bwriedir trwy gyfrwng apeliadau am danysgrifiadau, rhoddion a chymynroddion sefydlu cronfa addysgol a chrefyddol yn dwyn yr enw Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru (a elwir isod “yr Elusen”)

(2) Â bod i'r geiriau canlynol yn y Weithred hon yr ystyron canlynol, hynny yw:

(a) Wrth “yr Ymddiriedolwyr” golygir ymddiriedolwyr gwreiddiol y Weithred hon neu ei hymddiriedolwyr eraill neu ymddiriedolwr arall o bryd i bryd.

(b) Wrth “Cymru” golygir a chynhwysir Cymru a Sir Fynwy

(c) Wrth “Cronfa'r Ymddiriedolaeth” golygir a chynhwysir pob arian ac eiddo arall a dderbynnir gan yr Ymddiriedolwyr ar ymddiriedaethau'r Weithred hon a'r buddsoddiadau a'r eiddo a fyddo o bryd i bryd yn cynrychioli'r cyfryw neu unrhyw ran ohonynt.

YN AWR TYSTIA'R WEITHRED HON DRWY HYN fel y canlyn:

1. Bod yr Ymddiriedolwyr i ddal cronfeydd yr ymddiriedaeth a'r incwm a geir oddi wrthynt ar ymddiriedaethau elusennol addysgol a chrefyddol i'r amcan o hyrwyddo yng Nghymru addysg

grefyddol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn unol â dysgeidiaeth Gristnogol i blant a phobl ieuainc

2. Bod prif amcanion yr Elusen fel y canlyn:

- (a) Hybu addysg grefyddol a hyrwyddo astudiaeth o grefydd ac astudiaeth o addysg grefyddol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
- (b) Hyfforddi athrawon i gyflwyno addysg grefyddol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
- (c) Cyhoeddi llenyddiaeth, llyfrau, pamffledi, newyddiaduron, cylchgronau, adroddiadau, darluniau, ffilmiau yn yr iaith Gymraeg ac unrhyw ddogfennau eraill a ystyrir ar unrhyw adeg yn fuddiol i'r amcan o hyrwyddo addysg grefyddol ymhlith plant a phobl ieuainc yng Nghymru.
- (d) Talu'r cwbl neu ran o dreuliau unrhyw berson a fo'n mynychu colegau, sefydliadau, ysgolion neu gynadleddau neu ddarlithiau i'r amcan o hyrwyddo addysg grefyddol ymhlith plant a phobl ieuainc yng Nghymru.
- (e) Trefnu darlithiau ac ysgolion i'r amcan o hyrwyddo addysg grefyddol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ymhlith plant a phobl ieuainc yng Nghymru.
- (f) Darparu ysgoloriaethau ar gyfer addysg bellach o ansawdd grefyddol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
- (g) Talu'r cwbl neu unrhyw ran neu rannau o unrhyw dreuliau yr eir iddynt neu y dymunir myned iddynt wrth godi, ailadeiladu neu helaethu neu wella neu newid unrhyw adeilad a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio i ddarparu moddion hwyluso hyfforddi crefyddol a lles cymdeithasol gyda'r amcan o wella amgylchiadau bywyd plant neu bobl ieuainc ac wrth atgyweirio, adnewyddu, helaethu neu wella offer, dodrefn, staff a chyfleusterau unrhyw adeilad o'r fath.
- (h) Darparu neu gyfrannu tuag at gyflog athrawon a swyddogion a fo yng ngwasanaeth unrhyw ysgol neu sefydliad elusengar i hyrwyddo addysg grefyddol ymhlith plant neu bobl ieuainc yng Nghymru a darparu neu gyfrannu tuag at foddion cynhaliaeth y cyfryw ysgol neu sefydliad
- (i) Cyflwyno rhoddion neu danysgrifiadau i unrhyw gymdeithas, sefydliad, ymddiriedaeth neu gyfundrefn bresennol neu i ddyfod a fo'n hyrwyddo amcanion yr Elusen.

3. Bod cronfeydd yr Ymddiriedaeth i'w gweinyddu a'u rheoli gan Gyngor.

4. Bod yr Ymddiriedolwyr i ddefnyddio cronfeydd yr Ymddiriedaeth a'r incwm a geir oddi wrthynt i hyrwyddo dywededig amcanion yr Elusen fel ag y'u cyfarwyddir gan benderfyniad mwyafrif y Cyngor.

5. Bod y Cyngor i gynnwys y canlynol:

- (i) Chwe Ymddiriedolwr
- (ii) Pedwar ar ddeg o aelodau cynrychioladol sef dau berson i'w penodi gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, dau gan Undeb Bedyddwyr Cymru, dau gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, dau gan yr Eglwys Fethodistaidd Gymraeg, dau gan yr Eglwys yng Nghymru, dau gan Gyngor Cenhadol Undebol Cymru. Pob penodiad i fod am dymor o dair blynedd ond mae hawl i ail benodi.

(iii) Cynrychiolwyr Rhanbarthol sef un i gynrychioli Ysgolion Sul y Rhanbarth. Pob penodiad i'w wneuthur am dymor o dair blynedd mewn cyfarfod o gynrychiolwyr o'r holl Ysgolion Sul enwadol o fewn rhanbarth i'w ddeffinio gan y Cyngor. Y cyfarfod i'w gynnull a'i gynnal yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor.

(iv) Dim mwy nag 20 na llai na 10 o aelodau i'w cyfethol sydd o raid yn bersonau sy'n cyfrannu fel unigolion tuag at yr Elusen neu'n bersonau yn cynorthwyo yng ngwaith yr Elusen neu gynrychiolwyr awdurdodau lleol sydd wedi cyfrannu at yr Elusen; ynglŷn â chynrychiolwyr awdurdod lleol bydd i'r Cyngor wahodd yr awdurdod lleol i enwebu ei gynrychiolydd i'w gyfethol fel y dywedwyd uchod. Bydd i aelod a gyfetholir wasanaethu am gyfnod o dair blynedd.

6. (a) Bod pob lle gwag yn aelodaeth y Cyngor i'w wneuthur yn hysbys i'r corff penodi priodol neu i'w lenwi gan y Cyngor fel y bo'r galw a hynny cyn gynted ag y bo modd.

(b) Bod aelod cynrychioladol a benodir i lenwi lle a ddaw'n wag yn ddamweiniol i ddal y swydd am weddill tymor gwasanaeth yr aelod y penodir ef neu hi yn ei le.

7. Bod swyddogion y Cyngor i gynnwys cadeirydd, ysgrifennydd mygedol a thrysorydd mygedol i'w penodi gan y Cyngor am dymor o dair blynedd. Y cyfryw swyddogion i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac o bwyllgorau eraill a benodir gan y Cyngor.

8. Bod hawl gan y Cyngor i benodi'n Llywydd Anrhydeddus neu'n Is-lywyddion Anrhydeddus unrhyw bersonau a roes, ym marn y Cyngor, wasanaeth amlwg i addysg grefyddol yng Nghymru.

9. (a) Bod i'r Cyngor yn flynyddol yn y cyfarfod cyntaf a gynhelir wedi'r cyfarfod blynyddol benodi Pwyllgor Gwaith i ymdrin â rheolaeth feunyddiol yr Elusen. Bod y Pwyllgor Gwaith i gynnwys yr Ymddiriedolwyr a swyddogion yr Elusen ac aelodau i'w penodi gan y Cyngor. Bod pob lle gwag ar y Pwyllgor Gwaith i'w lenwi gan y Cyngor cyn gynted ag a fo'n bosibl. Bod talu i aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac aelodau Pwyllgorau eraill a benodir gan y Cyngor unrhyw dreuliau rhesymol yr elont iddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau.

(b) Bod hawl gan y Pwyllgor Gwaith i gyfethol aelodau ychwanegol ond nad yw nifer y cyfryw aelodau i fod yn fwy na thraean cyfanrif yr aelodau a benodir gan y Cyngor. Bod y Pwyllgor Gwaith i gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

10. Bod y Cyngor i gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn ac ar adegau eraill ar gais y Pwyllgor Gwaith neu ar gais wedi'i arwyddo gan chwarter cyfanrif yr aelodau. Pan dderbynnir cais felly bod y cyfarfod i'w gynnal nid llai na phedwar diwrnod ar ddeg ac nid mwy nag un diwrnod ar hugain wedi'r dydd y derbynnir y cais gan yr ysgrifennydd. Cyn y bydd unrhyw gyfarfod o'r Cyngor yn un rheolaidd rhaid i draean yr holl aelodau fod yn bresennol.

11. (i) Bod cyfrifon yr Elusen i'w harchwilio a'u cyflwyno i'r Cyfarfod Blynyddol a bod penodi yn y cyfarfod hwnnw am y flwyddyn ddilynol archwiliwr a fyddo'n gyfrifydd cymwys.

12. Bod copi o'r cyfrifon uchod ynghyd ag adroddiad yr archwiliwr i'w gyflwyno yn ddiymdroi wedi'r archwiliad i bob corff a enwebodd aelodau o'r Cyngor.

13. Bod hawl gan y Pwyllgor Gwaith o bryd i'w gilydd a chyda cymeradwyaeth y Cyngor i lunio a newid Rheolau ynglŷn â chario ymlaen ei waith ac yn arbennig ynglŷn â:

- (a) Hawl i gasglu rhoddion (naill ai'n gyfnodol neu fel arall).
- (b) Hawl i anfon allan apeliadau am roddion.
- (c) Phenodi a diswyddo gwasanaethyddion cyflogedig fel y bo'r galw.
- (ch) Dyletswyddau swyddogion a dyletswyddau gwasanaethyddion.
- (d) Hawl i benderfynu i ba raddau ac i ba amcan neu amcanion y mae symiau o arian i'w defnyddio pan na fo'r Cyngor yn eistedd.

14. Bod y symiau o arian a dderbynnir gan yr Ymddiriedolwyr neu'r Cyngor mewn cysylltiad â'r Elusen neu mewn rhyw fodd arall tuag at amcan yr Elusen hon i'w talu i mewn i Gyfrif Ymddiriedaeth yn y Banc Taleithiol Cenedlaethol yn Aberystwyth neu yn unrhyw Fanc arall a ddewisir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd a bod unrhyw gyfnewidiad i'w nodi ar gefn y Weithred hon ynghyd â chopi o'r penderfyniad perthynol.

15. Bod yr hawl i benodi Ymddiriedolwr newydd neu Ymddiriedolwyr newyddion i'r Elusen i'w rhoddi ym meddiant y Cyngor.

16. Y bydd yn gyfreithlon i'r Ymddiriedolwyr trwy eu cydsyniad unfrydol ac mewn canlyniad i benderfyniad a basir trwy fwyafrif o ddwy ran o dair o'r rhai a fydd yn bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor i ddiwygio neu newid y cwbl neu unrhyw rai o ymddiriedaethau, hawliau neu ddarpariaethau'r Weithred hon ac i awdurdodi ymddiriedaethau (a fo'n elusennol ac o fewn cylch amcanion yr Elusen) hawliau a darpariaethau eraill ynglŷn â defnyddio cronfeydd yr ymddiriedaeth.

YN DYSTIOLAETH i hyn oll dododd y partion i'r Weithred hon eu llofnodau a'u seliau yma y dydd o'r flwyddyn a nodir uchod.

Ebenezer Curig Davies
Gwilym Prys Davies
Joseph Haines Davies
Alun Roderick Edwards
Thomas Oliver Gregory

MEMORANWM O AMRYWIAETH

(1) Trwy benderfyniad (“y Penderfyniad”) a wnaed yn unol â Chymal 16 o’r Weithred Ymddiriedolaeth mewn cyfarfod o Ymddiriedolwyr yr elusen a gynhaliwyd ar yr 20ed o Fehefin 2008 penderfynwyd y dylid amrywio’r Weithred Ymddiriedolaeth yn y modd a ddynodir yn y Penderfyniad.

(2) Gosodir y newidiadau a ddynodwyd yn y Penderfyniad yn y Memorandwm hwn o dan y pennawd “Gwelliannau i’r Cyfansoddiad”.

(3) Yn dilyn y Penderfyniad mae’r Weithred Ymddiriedolaeth wedi ei newid yn y modd a ddynodir yn y Memorandwm hwn ac o hyn allan mae’r Weithred Ymddiriedolaeth i’w dehongli a’i darllen yn ddarostyngedig i’r cyfryw newidiadau (“y newidiadau”).

(4) Yn ddarostyngedig i’r newidiadau mae’r gweddill o gynnwys y Weithred Ymddiriedolaeth i aros fel ag y mae.

YN DYSTIOLAETH I HYN rhoddodd yr Ymddiriedolwyr eu llofnodau ar yr 20ed o Fehefin 2008.

LLOFNODWYD gan yr Ymddiriedolwyr: Ifan Rh. Roberts, Rheinallt A. Thomas, Jill Tomos, J. Ronald Williams, Trefor Lewis, Dewi M. Hughes, Geraint Tudur, Peter Thomas, J. P. Barnett

CYNGOR YSGOLION SUL AC ADDYSG GRISTNOGOL CYMRU GWELLIANNAU I’R CYFANSODDIAD

Bod y darpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr elusen a adwaenir fel Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru dyddiedig 14 dydd o Ionawr 1966 yn cael eu haddasu fel a ganlyn.

1. Cymal 5: Gadael allan is-gymalau (i), (ii), (iii) a (iv) a gosod yn eu lle yr is-gymalau newydd hyn:

(i) Pump Ymddiriedolwr (un o bob un o’r Enwadau a enwir yn (ii) isod ond a benodir gan Y Cyngor – gweler Cymal 15 isod) ynghyd â’r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd a’r Trysorydd.

(ii) Pymtheg o aelodau cynrychioladol sef tri person i’w penodi gan yr enwadau canlynol: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys

Fethodistaidd Gymraeg a'r Eglwys yng Nghymru. Pob penodiad i fod am dymor o dair blynedd ond mae hawl i ail benodi.

(iii) Dim mwy nag 15 na llai na 5 o aelodau i'w cyfethol sydd o raid yn bersonau sy'n cyfrannu fel unigolion tuag at yr Elusen neu'n bersonau yn cynorthwyo yng ngwaith yr Elusen. Bydd i aelod a gyfetholir wasanaethu am gyfnod o dair blynedd.

2. Cymal 7: Gadael allan y cymal i gyd a gosod yn ei le y cymal newydd hwn

Bod swyddogion y Cyngor i gynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd, Cofnodydd, Trysorydd mygedol ac Ysgrifennydd ariannol i'w penodi gan y Cyngor am dymor o dair blynedd, ond bydd hawl i ail ethol. Y cyfryw swyddogion i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhinwedd eu swydd.

3. Cymal 9: (i) Gadael allan is-gymal (a) a gosod yn ei le yr is-gymal hwn

(a) Bod i'r Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol benodi Pwyllgor Gwaith (ac unrhyw Baneli angenrheidiol) i ymdrin â rheolaeth feunyddiol yr Elusen. Bod y Pwyllgor Gwaith i gynnwys yr Ymddiriedolwyr a swyddogion yr Elusen. Bod pob lle gwag ar y Pwyllgor Gwaith i'w lenwi gan y Cyngor cyn gynted ag a fo'n bosibl. Disgwylir i'r Enwadau dalu treuliau eu cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Gwaith a'r Paneli

(ii) Yn is-gymal (b) ychwanegu ar ôl "Pwyllgor Gwaith" a'r Paneli.

(iii) Ychwanegu yr is-gymal (ch) canlynol:

(ch) Bod y Paneli yn cyfarfod yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor a/neu y Pwyllgor Gwaith

4. Cymal 10, llinell 1

Ychwanegu ar ôl "flwyddyn" y geiriau: "fel Cyfarfod Blynyddol"

5. Cymal 11, y cymal presennol i'w rifo fel (i) ac ychwanegu is-gymal (ii)

(ii) Dylai'r archwiliad fod yn archwiliad annibynnol ond os yw trosiant yr Elusen yn uwch na'r trothwy statudol dylai fod yn archwiliad ariannol llawn.

ATODIAD 2

Rhestr Swyddogion y Cyngor, 1966–2016

Llywyddion Anrhydeddus:

Dr Gwenan Jones, Aberystwyth (1968–?)

Dan Lynn James (1980–93)

Parch. J. Haines Davies (1993–2004)

Elisabeth Lloyd James (2005–)

Is-lywydd Anrhydeddus:

Syr Ben Bowen Thomas, Bangor (1968–77)

Llywyddion:

Parch. Curig Davies (1966–70)

Parch. Trefor Lloyd (1970–73)

Parch. W. H. Rowlands (1973–6)

Dan Lynn James (1976–80)

Rheinallt A. Thomas (1980–87)

Parch. Derwyn Morris Jones (1987–90)

Parch. Cledwyn Griffith (1990–94)

Parch. Geraint Morse (1994–7)

Y Barch. Enid Morgan (1997–2000)

Parch. Tom Defis (2000–03)

Parch. Olaf Davies (2003–5)

Parch. Edwin Hughes (2005–6)

Parch. J. Ronald Williams (2007–9)

Parch. Trefor Lewis (2010–13)

Parch. Densil John (2014–16)

Parch. Dyfrig Lloyd (2017–)

Ysgrifenyddion:

Parch. J. Haines Davies (1966–86)

Parch. Gwilym Ceiriog Evans (1986–90)

Parch. Trefor Lewis (1990–94)

Parch. J. Ronald Williams (1994–7)

Mrs Helen M. O. Roberts (1997–2000)

Parch. Aled Davies: Ysgrifennydd Cyffredinol (1997–2006);

Cyfarwyddwr (2007–)

O ganlyniad, er 1997 bu nifer o Gofnodwyr: Gwenan Creunant; Nesta Tiplady; y Barch. Enid Morgan; Parch. Dewi Myrddin Hughes; Parch. Ddr Geraint Tudur.

Hefyd Parch. Ifan Rh. Roberts yn Ysgrifennydd y Cyngor (2007–)

Trysoryddion:

T. O. Gregory, Aberystwyth (1966–73)
Gwilym Morgan, Llundain (1974–81)
Trefor Lloyd Jones, Caernarfon (1981–6)
Alwyn Williams, Porthaethwy (1986–9)
Parch. Trefor Lewis (1989–90)
Trebor Lloyd Evans, Dolgellau (1990–97)
Hendrick Haye, Penarth (1997–2003)
Bryn Mortimer Roberts (2003–6)
Y Barch. Jill Tomos (2006–9)
Idris Hughes (2010–)

Swyddogion Ariannol

Parch. Trefor Lewis (Cyhoeddiadau'r Gair) (1992–2003)
Rheinallt A. Thomas (1997–)

ATODIAD 3

Esboniadau Dosbarthiadau'r Oedolion

Efengyl Marc – Godfrey Jones (1965)
II Corinthiaid – Esboniad David Williams (1966)
Proffwyd Gofidiau – Bleddyn Jones Roberts (1967)
Galatiaid – Esboniad David Williams, wedi ei olygu gan Llewelyn Jones (1968)
Llyfr y Datguddiad – Hugh Matthews (1969)
Hosea a Micha – J. R. Roberts (1970)
Yr Epistolau Bugeiliol – L. D. Richards (1971)
Yr Ysbryd Glân – R. Tudur Jones (1972)
Genesis – Harri Williams ac O. E. Roberts (1973)
Epistolau Iago, 1 a 2 Pedr, Jwdas – Trefor Lloyd (1974)
Cerddi Seion: Y Salmau – Gwilym H. Jones (1975)
Epistolau Ioan – Trefor Lloyd (1976)
Yr Efengyl yn ôl Luc – George W. Brewer (1977)
Yr Ail-Eseia: Proffwyd yr Adferiad – Elwyn R. Rowlands (1978)
Yr Efengyl yn ôl Mathew – Maurice Loader (1979)
Job – John Tudno Williams (1980)
Ffordd y Ffydd: Yr Eglwys Fore – Eifion Wyn Griffiths (1981)

Y Gair ar Gerdded – Ieuan S. Jones (1982)
Amos a Joel – Gareth Watts (1983)
Y Llythyr at y Rhufeiniaid – Dafydd G. Davies (1984)
Bywyd a Goleuni – Isaac Jones (1985)
Genesis 12–50 – John Owen Jones (1986)
Neges i'r Oes ac Efengyl i'r Oesoedd (Daniel a Marc) – E. H. Griffiths (1987)
Y Gair Ddoe a Heddiw (Eseia o Jerwsalem a Chyfieithu'r Beibl) –
Gwilym H. Jones ac Owen E. Evans (1988)
Y Llythyr at yr Hebreaid – Eryl Wynn Davies (1989)
Exodus – Maurice Loader (1990)
Llith i Gorinth (1 Corinthiaid) – John Tudno Williams (1991)
Gwae a Gobaith (Eseciel) – Cynwil Williams (1992)
Y Daith Anorfod (Themâu o Luc) – Saunders Davies (1993)
Pobl Dduw'n Addoli: Blwyddyn A – Pryderi Llwyd Jones (1994)
Pobl Dduw'n Dysgu: Blwyddyn B – Geraint Morse (1995)
Pobl Dduw'n Perthyn: Blwyddyn C – Euros Wyn Jones (1996)
Eseia a Ioan: Blwyddyn A – Elwyn Richards (1997)
Salmau ac Actau: Blwyddyn B – John Treharne (1998)
Llythyr at yr Effesiaid a'r Bregeth ar y Mynydd – Alun Tudur (1999)
Efengyl Marc – D. P. Davies (2000)
Hosea a Micha – Eryl Wynn Davies (2000)
1 a 2 Samuel – Gwilym H. Jones (2001)
Galatiaid a'r Filipiaid – J. Tudno Williams (2001)
Llyfr Deuteronomium – Gwynn ap Gwilym (2002)
Llyfr Datguddiad – Catrin Haf Williams (2002)
Detholion o Lyfr Jeremeia – Gareth Lloyd Jones (2003)
Y Llythyr at yr Hebreaid – D Hugh Matthews (2003)
Actau'r Apostolion – Tom R. Wright (2004)
Joel ac Amos – Wil Huw Pritchard (2004)
Efengyl Ioan – Desmond Davies (2005)
Detholion o Genesis – Noel A. Davies (2005)
Gwybod y Geiriau, Adnabod y Gair – Euros Wyn Jones (2006)
Byw y Ffydd – Elwyn Richards (2007)
Bob Dydd Bendithiaf Di – Ieuan Elfryn Jones (2008)
Cwestiynau Mawr Bywyd – Euros Wyn Jones (2009)
Geiriau Doeth y Beibl – Elwyn Richards (2010)
Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn – Meirion Morris; *Cydymaith Stori Duw* gan Huw John Hughes, sef cyfres o 92 gwrs i fynd drwy'r maes dros ddwy flynedd (2011–13)
Dehongli'r Damhegion (2008); *Dehongli'r Bregeth* (2010); *Dehongli'r Gwyrthiau* (2011) a *Dehongli Bywyd Iesu* (2014) – Elfed ap Nefydd Roberts (2014–15)

Atodiad 4

Rhagarweiniad i'r teyrngedau

Dros y blynyddoedd mae llawer o unigolion wedi cyfrannu'n **wirfoddol** at lwyddiant a pharhad y Cyngor Ysgolion Sul.

I mi'n bersonol, a barn bersonol ydi hi, mae tri yn sefyll allan yn hyn o beth. Mae'r tri yn perthyn i'r cyfnod cychwynnol ac yn cynrychioli tair elfen wahanol ond allweddol o fywyd yY Cyngor.

Oni bai am weledigaeth a menter a chyfraniad ariannol personol T. O. Gregory, rwy'n hollol sicr na fyddai gwaith y Cyngor wedi gallu parhau, ac yn sicr ni fyddai'r cyfalaf sy'n sylfaen i'r Cyngor ers blynyddoedd yn bodoli. Oni bai am ynni a brwdfrydedd J. Haines Davies yn hybu a gwthio mewn cynifer o wahanol gylchoedd ac yn ysbrydoli a pherswadio unigolion i ymroi i'r gwaith, byddai bywyd y Cyngor wedi bod yn fyrhoedlog. Yn yr un modd, oni bai am weledigaeth, ynni a brwdfrydedd Dan Lynn James yn cynhyrchu gwerslyfrau, byddai nid yn unig y Cyngor ond ysgolion Sul unigol wedi edwino'n syfrdanol yn y saithdegau.

Yn drist, bu T. O. Gregory farw yn llawer rhy gynnar, ond bu i'r Cyngor gydnabod cyfraniadau arbennig ac unigryw Dan Lynn James a J. Haines Davies drwy eu hanrhydeddu a'u dyrchafu yn Llywyddion Anrhydeddus. Yr wyf finnau, yn yr un modd, am gynnwys teyrngedau a roddwyd i'r tri, fel arwydd, yn y llyfr hwn, o ddyled y Cyngor iddyn nhw.

Thomas Oliver Gregory

Mr T. O. Gregory oedd Trysorydd cyntaf Cyngor Ysgolion Sul Cymru. Roedd ef ar y pryd yn Rheolwr y National Provincial Banc yn Aberystwyth, ac fe'i dyrchafwyd yn bennaeth Canol Cymru pan ymunodd y cwmni gyda chwmnïau Westminster. O'r dechrau, ac yntau yn fab y mans ac wedi bod yn athro ac arolygwr ysgolion Sul yn enwedig pan yn Llundain, nid oedd ormod fedrai ei wneud dros y mudiad newydd. Mentrodd fuddsoddi arian er mwyn gwneud arian er nad oedd gan y Cyngor ddimai ar ei henw. Gweithred o ffydd!

Roedd yn rhaid hysbysebu'r Cyngor trwy argraffu pamffledyn a'i yrru ledled eglwysi Cymru gan ddisgwyl pethau gwych i ddyfod. Ni ddaeth, ac er ei siomi ni ddigalonodd. Pan ddaeth syniadau i gael caneuon modern crefyddol Cymraeg i'r ieuainc parod oedd i fentro'i fenter trwy agor cyfrif newydd heb ddimai goch yr heli ar ei gyfer. Ond gwerthwyd allan y gyfrol *Diolch i Ti* a'i hail-argraffu.

Syniad arall y bu'n frwd drosto oedd cael trefnydd llawn-amser ar y cyd gyda Phwyllgor Addysg i'r ysgolion Sul. Llwyddwyd i gael Methodistiaid Calфинаidd Cymru trwy eu hadran genhadol i gefnogi'r fenter fel arbrawf a buan y teimlwyd y byddai pwyllgor addysg Sir Aberteifi yn barod i fentro. Cododd cymylau o du'r swyddogion a Mr Gregory yn anad neb arall fu'n foddion trwy ei bersonoliaeth a'i frwdfrydedd i chwilio am ffyrdd i'w goresgyn. Nid oedd yn hapus ar dyfiant y mudiad gan gredu y dylai mwy o'i ieuencid fod wrth y llyw. Lluniodd gyfansoddiad newydd. Trueni na chafodd fyw fis neu ddau yn hwy i weld ffrwyth ei lafur. Yn union wedi ei huno yr apwyntiwyd trefnydd addysg grefyddol ac ysgolion Sul yn Sir Aberteifi ac y galwyd ieuencid i gyfarfod cyntaf y Cyngor wedi i'r cyfansoddiad gael ei newid drwy ei awgrymiadau ef. Y mae mwy o fywyd a hyder yn y Cyngor Ysgolion Sul nag a welwyd erioed cyn hyn.

Alun Edwards

Dan Lynn James (1929–93)

Llywydd Anrhydeddus y Cyngor, 1980–93

Bu farw Dan Lynn James ar Dachwedd 12, 1993, wedi blynyddoedd lawer o salwch, ac yntau'n 64 oed. Dan oedd un o'r ffigurau mwyaf yn hanes dysgu ail iaith yn y ganrif hon yng Nghymru. Yn wir, mae'n anodd gen i feddwl fod neb erioed wedi cyfrannu mor eang ac mor ddwfn i ddefnyddiau Cymraeg ail iaith ag a wnaeth Dan. Yn y saithdegau yr oedd yn sefyll ben ac ysgwyddau uwch ben pawb.

Ganwyd ef yn Henllan, Ceredigion, yn fab i saer. Ar ôl gwneud ei radd yng Ngholeg Abertawe, bu yn y llynges. Ac yna, cyflwynodd draethawd ar waith Huw Machno ar gyfer gradd MA ym 1961. Wedyn daeth cyfnod yn ysgolion Llanrwst, Cwm Ogwr, y Rhyl, ac ef oedd yr athro a drefnodd y gwerthiant mwyaf yng Nghymru, mewn ymgyrch lyfrau. Aeth yn ddarlithydd i Goleg Cyncoed (pryd y bu'n ddiakon yng Nghapel Ebeneser). Deuthum i i'w adnabod yn dda pan symudodd ef i Aberystwyth i'r Gyfadran Addysg yn y Brifysgol a llenwi'r swydd a wacawyd gennyf i wrth symud i'r Adran Gymraeg. Gorffennodd ei yrfa yn Drefnydd Iaith Ceredigion, a daeth yn ddiakon yn Seion ym 1972.

Penodwyd ef yn Llywydd Anrhydeddus Cyngor Ysgolion Sul Cymru ac yn Llywydd Anrhydeddus CYD. Addysgwr Cristnogol oedd ef, "un o'n tywysogion", meddai'r Parch. Andrew Lenny. Ar ôl sylweddoli'r angenrheidrwydd ym myd ail iaith i gael ymarfer â phatrymau er mwyn sefydlu ystwythder yr iaith yn y meddwl, daeth ef a chyfuno hynny â lliw ac ymarferoldeb sefyllfa. Roedd e'n deall yr angen i gael trefn: roedd yn deall hefyd yr angen i gael hwyl a sbri. Lle bynnag y byddai'n mynd, roedd ei egni a'i hiwmor yn enwog. Roedd hi'n hawdd caru Dan.

Sgrifennodd lawer o lyfrau a llu o ysgrifau. A helpodd hyn y proses anodd o foderneiddio'r iaith a'r dulliau dysgu. Roedd wedi astudio dulliau dysgu, nid yn gul gan aros gydag un mater neu chwiw, ond yn eang ac yn ddwfn yn holl amrywiaeth adennill iaith. Yr oedd hefyd yn gallu perfformio o flaen dosbarth. A "pherfformio" oedd y gair. Y tân ar ei groen oedd y "gwladgarwyr" diog.

Heblaw ei waith ffrwythlon a helaeth gyda'r iaith, yr oedd Dan yn Gristion mawr. Cafodd dröedigaeth, a daeth i adnabyddiaeth bersonol o lesu Grist yng Nghaerefrog. Roedd ei ysbryd wedi dod yn fyw ac wedi cael prawf. Roedd hyn yn gymorth cadarn iddo yn ysiod ei salwch.

Oherwydd ei awydd i genhadu a mawrygu Crist, yn arbennig ymhlith plant, bu gyda'i wraig alluog, Elisabeth, yn gyfrifol am lunio llawer iawn o lyfrau i'r Ysgol Sul. Athro athrylithgar oedd, a chymeriad lliwgar. Roedd ganddo weledigaeth ddeuol: gweledigaeth adfywiad y byd bach – yr iaith Gymraeg, a gweledigaeth y byd mawr – Teyrnas Nefoedd. Llawenydd oedd y naill a'r llali am iddo ddod o hyd i darddiad pob llawenydd.

Pedwar mudiad oedd agosaf at ei galon – CYD, Nant Gwrtheyrn, y Gideoniaid, a'r Cyngor Ysgolion Sul. Bydd llawer iawn yn gweld ei eisiau'n ddwfn iawn. Ond cydymdeimlwn yn arbennig â'i wraig, Elisabeth, ac â'i blant – Dafydd, Bethan a Gwenno ar eu colled ddirfawr. Ac yn awr, y mae Dan gyda'i Brynwr Annwyl.

Yr Athro Bobi Jones

Dan Lynn James: teyrnged ysgrifenedig gan y Parch J. Haines Davies a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cyngor

Pan ddaeth y diweddar Barch. Trebor Lloyd Evans yn aelod o'r Cyngor, ychydig ohonom a sylweddolodd ein bod ar drothwy cyfnod newydd, arbrofol, yn hanes Ysgolion Sul Cymru. Buan iawn y cawsom ein sbarduno a'n cyfoethogi â gweledigaeth anturus Dan ac Elisabeth James. Hyd yn oed o fewn y Cyngor ei hun bu'n rhaid brwydro'n ddyfal i dderbyn a chefnogi'r cynlluniau chwyldroadol a gyflwynwyd ganddynt, awgrymiadau a fyddai'n chwyldroi ein darpariaeth ynglŷn â'r Maes Llafur. Yn raddol, ond yn sicr, er pob beirniadaeth, eto i gyd, drwy'r cylchgronau a'r gwersi newydd llwyddwyd i ennill calon a meddwl arweinwyr yr Ysgolion Sul. Mynych bu'r teithio a'r darlithio a pharatoi'r defnyddiau angenrheidiol. Bellach, wrth edrych yn ôl, rhyfeddwn cymaint a gyflawnwyd gan gyn lleied ohonom mewn dyddiau o brinder arian ac adnoddau. Modd bynnag, gosodwyd seiliau cadarn sydd wedi ffrwytho mewn gweithwyr amser llawn a rhwydwaith o weithgareddau cyfoes a mentrus, a hyn yn un ag ysbryd yr arloeswyr brwd.

Ni fyddai ysgrifennu'r paragraff uchod yn bosibl oni bai am frwdfrydedd heintus ein cyfaill Dan Lynn James a'i annwyl briod, Elisabeth.

Braint bersonol oedd cael rhannu yn y weledigaeth a'r gweithgareddau hyn. Yn sylfaen i'r cyfan roedd ein hargyhoeddiadau a'n profiadau personol o rym achubol yr Efengyl, ac adnoddau dihybsydd yr Ysbryd Glan i'n cynnal a'n cadw.

Nid oeddem bob amser "ar ben y mynydd", ond yn amlach na dim "i lawr ar y dyffryn" yn ceisio torri cwys newydd ym myd addysg Gristnogol Gymraeg i'n plant a'n hieuenctid.

Nid ystrydeb yw dweud am Dan: "cyflawnodd ddiwrnod da o waith yng ngwinllan ei Arglwydd". Ni fyddai Ysgolion Sul Cymru'r hyn ydynt heddiw oni bai am ei gyfraniad nodedig ef. "Ni fydd fel ag a fu" a gwyddom "nad ofer y llafuriodd". Dychmygaf ei weld a'i wedd hyfryd, "Haines, clod i Dduw, yntê? Clod i Dduw."

Cydymdeimlad llwyr af y Cyngor ag Elisabeth James a'r teulu.

J. Haines Davies

Y Parch. Joseph Haines Davies (1917–2004)

Gweithredwr y Gair

Yn 1944 ysgrifennodd Ambrose Bebb y geiriau hyn am rr Ysgol Sul:

Wedi agos i ganrif a hanner o wasanaeth digymar, y mae tynged yr Ysgol Sul o'r diwedd yn y glorian. Cyfrifoldeb mawr y genhedlaeth hon ydyw penderfynu pa dynged derfynol a fydd iddi. Hyd yr awron ni cheisiodd hi wynebu'r cyfrifoldeb a osodwyd arni. Ond yn awr ni all hi mwyach mo'i osgoi. Yr ydym oll yng Nghymru wyneb yn wyneb â'r mawr gyfrifoldeb hwn. Ni allwn na'i osgoi na'i ohirio. Yr awr a ddaeth. Y mae'n lled hwyr: ond nid yw'n rhy hwyr. Heddiw ydyw'r dydd i ymysgwyd. Bydd yfory'n rhy hwyr.

Gweinidog ifanc oedd Haines (ac felly roeddwn i yn ei adnabod a'i gyfarch) pan gyhoeddwyd y geiriau hyn ond roeddent yn sialens iddo ac yn rhywbeth dwi'n sicr a'i hysgogodd i geisio ymysgwyd y genedl o'i difaterwch ac i ymateb i'w chyfrifoldeb.

Deuthum i i'w gyfarfod gyntaf yn 1970 a hynny fel canlyniad i mi greu yn 1969, fel rhan o'm swydd fel darlithydd Addysg Grefyddol yn y Coleg Normal, lyfryn 30td yn dwyn y teitl *Rhestr Cynorthwyon Dysgu Addysg Grefyddol*. Nodais mai rhestr "wedi ei pharatoi gogyfer myfyrwyr ydyw yn fwyaf arbennig ond credaf ei bod yn ddefnyddiol i athrawon ysgolion dyddiol ac ysgolion Sul". Wn i ddim sut y daeth i ddwylo Haines ond fe'm gwahoddwyd ganddo i gyflwyno'r ddogfen i gyfarfod o Gyngor Ysgolion Sul Cymru a dyna gychwyn gysylltiad gyda'r Cyngor sydd wedi parhau hyd heddiw. Yn nodweddiadol ohono nid ymgynghorodd Haines â neb cyn fy ngwahodd! Fel yna y gweithredai. Os gwelai unrhyw un y credai ef allai fod o gymorth i'w genhadaeth byddai yn ei goleru – dim bwys am y cyfansoddiad nag enwadaeth. Nid cael cynrychiolwyr o bob enwad oedd yn bwysig ond cael rhai oedd yn barod i weithio ac i ymateb i'r "cyfrifoldeb ... na ellid ei hosgoi na'i gohirio".

Roedd Haines wedi bod wrthi ers blynnyddoedd felly cyn i mi ei gyfarfod. Roedd wedi bod yn aelod gweithgar o Bwyllgor Cyd Enwadol yr ysgol Sul ers yn fuan ar ôl iddo fynd yn Weiniog i Aberystwyth yn 1953, cyn iddo gydag eraill sefydlu Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru yn 1966. Ef oedd Ysgrifennydd cyntaf y Cyngor a bu yn y swydd am ugain mlynedd, a chefais y fraint o gydweithio'n agos ag ef yn ystod ei chwe mlynedd olaf gan i mi weithredu fel Cadeirydd y Cyngor yn y cyfnod hwnnw. Bu'n Ysgrifennydd cydwybodol i'r Cyngor gan ei

arwain, gerfydd ei glust weithiau, â'i frwdfrydedd heintus. Prociodd, ysgogodd a bu'n swnian ar enwadau, mudiadau ac unigolion i sicrhau eu cefnogaeth i waith yr ysgol Sul.

Pan y byddai'n cael syniad ac y byddai'n gweld y posibilrwydd o'i weithredu byddai'n recriwtio eraill i gydweithredu ond byddai ef yno yn y canol hefyd, a does dim amheuaeth nad ei gyfraniad ef, yn fwy na neb, sicrhaodd lwyddiant yr amryfal fentrau ymgymherodd y Cyngor dan ei arweiniad. Yn ei gyfnod ef y cychwynnwyd y cylchgrawn *Antur* i blant Cymru; y comisiynwyd cyfresi amrywiol o werslyfrau; y cynhaliwyd Ysgol Haf yr Ysgol Sul (gyda Mrs Davies yn llaw dde iddo yn hyn o beth); y cychwynnwyd cyrsiau hyfforddi i athrawon ysgolion Sul; y cafwyd y *Beibl y Plant mewn Lliw* cyntaf yn y Gymraeg (1978); y cafwyd sawl blwyddyn gyda Calendr Adfent; y llwyddwyd i gael cyllid i apwyntio swyddogion datblygu rhanbarthol; i drefnu amryfal weithgareddau i ddatlu dau ganmlwyddiant yr Ysgol Sul yn 1985.

Un stori yn unig i ddangos ei ddyfalbarhad. Roedd wedi gofyn i mi gynnal cyfres o gyrsiau hyfforddi i athrawon ysgol Sul ac i ddod ag arddangosfa o ddeunyddiau hefyd. Nid oedd fy mhennaeth adran yn y Coleg Normal yn fodlon a dywedais hyn wrth Haines. Yr unig ymateb i mi ar y pryd oedd "O, felly". Ymhen yr wythnos cefais i a'm pennaeth adran lythyr gan Brifathro'r Coleg yn ein hysbysu ei fod wedi cytuno gyda'r Parch. J. Haines Davies fy mod i ac unrhyw adnoddau yr oeddwn am eu defnyddio ar gael i gynnal y cyrsiau! Dyna i chi Haines y gweithredwr. Geiriau sy'n dod yn syth i'r meddwl wrth sôn am weithgarwch Haines gyda'r Cyngor yw: arweinydd brwdfrydig; un yn dyfalbarhau; ysgogydd; perswadiwr; unigolyn cwbl ddidwyll; peiriant o ddyn, a dyna chi Mr Ysgol Sul.

Peidiwch credu ei fod yn berffaith – o na! Nid un o'r "Trefnyddion" (Calfinaidd) oedd o – ac mae'n sicr bod bylchau mawr yng nghofnodion y cyfnod y bu'n Ysgrifennydd ac na chynhaliwyd cyfarfodydd fel y dylid, ac yn sicr nad oedd yr aelodaeth yn gyfansoddiadol bob tro. Doedd ffeilio ddim yn un o'i gryfderau a byddai gofyn am gopi o lythyr weithiau yn gyfystyr a gofyn am fil o bunnoedd! Ond roedd y gwaith yn digwydd a phawb yn cael eu hysgogi.

Ni phallodd ei gefnogaeth na'i ddiddordeb yng ngwaith yr ysgol Sul na'r Cyngor i'r diwedd, ac o 1993 hyd ei farwolaeth yn 2004 ef oedd Llywydd Anrhydeddus y Cyngor. Gwelodd Gorsedd y Beirdd hefyd yn dda ei anrhydeddu gyda'r Wisg Wen am ei waith diflino i'r ysgol Sul.

Yn yr un modd bu'n Ysgrifennydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Gogledd Cymru am flynyddoedd a phinacl pob blwyddyn oedd Cyfarfod Cyflwyno Medalau Gee i ffyddloniaid yr Ysgol Sul – ia, dyna ni, gwaith a ffyddlondeb i'r Ysgol Sul eto yn cael o amser a brwdfrydedd Haines. Bathodd y Cyngor hwnnw hefyd Fedal Gee "arbennig" i'w chyflwyno iddo fo am ei holl waith gyda'r Ysgol Sul.

Braint i mi oedd cael ei adnabod, cael cydweithio gydag o, a rhaid i bawb sy'n credu yng ngwerthoedd gorau ein cymdeithas ddiolch iddo am ei ddylanwad a'i gyfraniad ddiarbed a'i weledigaethau ysgogol.

Dyma weithredwr y gair yn wir ac un y byddai Iago (pennod 3, adnod 22), rwy'n sicr, yn falch o ddeud bod Haines yn cwbl wireddu ei ddatganiad pan mae'n mynegi "trwy'r gweithredoedd y cafodd ei ffydd ei mynegi'n berffaith".

Rheinallt A. Thomas